General Dental Council — protecting patients, regulating the dental team

agic Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru — hiw Healthcare Inspectorate Wales

# Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC): Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

*Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng*
*Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)*
*Dyddiedig:*

## Diben

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw gosod fframwaith mae AGIC a'r CDC wedi cytuno arno ar gyfer cydweithio a chydweithredu.

2. Bydd cydweithredu rhwng AGIC a'r CDC yn cynorthwyo system o reoleiddio gofal iechyd yng Nghymru sy'n hyrwyddo diogelwch cleifion a gofal iechyd o ansawdd uchel.

3. Ceir cyfrifoldebau a swyddogaethau AGIC a'r CDC isod yn **Atodiad A**.

4. Mae'r memorandwm hwn yn ymwneud â'r meysydd mae AGIC a'r CDC yn eu rhannu. Y bwriad yw egluro eu gwahanol rolau a chyfrifoldebau ac amlinellu'r mecanweithiau a roddwyd ar waith er mwyn hyrwyddo cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau sefydliad. Nid yw'r cytundeb hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol sy'n bodoli eisoes na diwygio unrhyw bolisïau neu gytundebau eraill sy'n gysylltiedig â gweithgareddau AGIC a'r CDC, ac ni ellir ei orfodi yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, mae AGIC a'r CDC yn cytuno i lynu at gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Egwyddorion cydweithredu

5. Mae AGIC a'r CDC yn bwriadu y bydd eu perthynas weithio’n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

   - Yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hyrwyddo diogelwch cleifion a gofal iechyd o ansawdd uchel;
   - Parch tuag at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall;
   - Yr angen i gynnal hyder cyhoeddus a phroffesiynol yn y ddau sefydliad;
   - Diwylliant o fod yn agored a thryloyw rhwng y ddau sefydliad, o ran pryd yr ystyrir bod cydweithrediad yn angenrheidiol neu'n briodol;
   - Yr angen i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac effeithlon;
   - Mae AGIC a'r CDC yn ymroddedig i weithio gyda'i gilydd a chyda phobl eraill er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hamddiffyn;
   - Mae gan AGIC a'r CDC gyfrifoldeb am gwblhau eu prosesau ar gyfer pob deintydd a gweithiwr deintyddol proffesiynol sy'n cael ei atgyfeirio atynt, a chynnal cyfrinachedd gwybodaeth iechyd bersonol cyhyd ag y bo modd;

- Bwriad y memorandwm hwn yw sicrhau y cynhelir sianeli effeithiol o gyfathrebu rhwng y CDC ac AGIC lle mae angen cyfnewid gwybodaeth;

- Yr egwyddorion llywodraethol yn y berthynas rhwng y ddau sefydliad yw y bydd yr un yn rhoi gwybodaeth i'r llall yn unol â'r fframwaith cyfreithiol a'r datganiadau o ddiben sydd yn y memorandwm hwn; a

- Mae'r fframwaith sy'n llywodraethu rhannu gwybodaeth yn cynnwys, ac enwi ychydig yn unig ohonynt, rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1988, Deddf Hawliau Dynol 1998, dyletswydd o ymddiriedaeth yn ôl y gyfraith gyffredin, Cod Ymddiriedaeth y GIG, ac yn achos y CDC, pwerau a roddwyd o dan Ddeddf Deintyddion 1984.

6. Mae AGIC a'r CDC hefyd yn ymroddedig i system reoleiddio ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru sy'n dryloyw, atebol, cymesur, ac wedi ei dargedu – sef egwyddorion rheoleiddio gwell.

**Meysydd o gydweithredu**

7. Mae'r berthynas weithio rhwng AGIC a'r CDC yn cynnwys cydweithio yn y meysydd canlynol. (Ceir enwau rheolwyr Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth penodedig ar gyfer y ddau sefydliad yn Atodiad B).

**Cyfathrebu a chysylltiadau cyffredinol**

Bydd y cyfathrebu rheolaidd rhwng y CDC ac AGIC rhwng **Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer y** CDC a **Phennaeth Arolygiadau** AGIC. Mae'r ddau gorff yn ymroddedig i gyfathrebu effeithiol ar ba lefel bynnag yw'r fwyaf effeithiol ar gyfer yr amgylchiadau, gan gynnwys gwybodaeth am dueddiadau, pryderon, data, dulliau o weithredu, a mentrau sydd yn berthnasol i wella ansawdd gofal y claf.

- Bydd y CDC ac AGIC yn gwahodd cyfraniadau gan ei gilydd ar bolisi a chanllawiau ar weithredu, ac adroddiadau a mecanweithiau eraill, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau cywirdeb ffeithiau, er mwyn elwa ar wybodaeth ac arbenigedd ei gilydd, ac er mwyn hyrwyddo cyngor cyson.
- Bydd y CDC ac AGIC yn cynorthwyo ei gilydd, lle mae'n briodol, trwy roi gwybodaeth ar gyfer ymchwiliadau a mentrau er mwyn hyrwyddo amcanion y ddau sefydliad.
- Mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei rhannu mewn ffordd ddiogel a thrwy borth diogel AGIC, a ddarperir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'n rhaid amddiffyn dogfennau â chyfrinair ar bob adeg.
- Dylid cynnal cynadleddau dros y ffôn yn chwarterol er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn â newidiadau i brosesau, gweithdrefnau, a diweddariadau ar achosion gan y ddau sefydliad.

**a. Atgyfeiriadau at y Cyngor Deintyddol Cyffredinol**

- Pan ddaw pryderon i sylw AGIC yn ystod arolygiad, dylai hi gysylltu â'r CDC, a gofyn i siarad â Rheolwr Gwaith Achos neu Bennaeth Gwaith Achos er mwyn trafod camau gweithredu i'w cymryd ar unwaith.

- Dylid hysbysu'r CDC am unrhyw arolygiadau negyddol, a rhoi copïau o adroddiadau AGIC iddo (o dan embargo), yn ogystal ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall fel arolygiadau dilynol yn sgil arolygiadau negyddol.

- Bydd AGIC yn rhannu llythyron gweithredu ar unwaith â'r CDC – gan roi manylion practisau sydd wedi cael arolygiad sydd wedi arwain at gymryd camau i ddatrys y sefyllfa'n brydlon – bob mis.

- Pan fydd AGIC yn rhoi gwybodaeth i'r CDC, dylai fod cydsyniad ymhlyg bod y CDC yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn cyflawni ei ddyletswydd reoleiddiol.

- Efallai y bydd y CDC o bryd i'w gilydd yn rhoi manylion cwyn i AGIC ac yn ymholi ynghylch unrhyw bryderon sydd gan AGIC a fyddai'n cyfiawnhau ymweliad dirybudd.

**b. Cyfeiriadau at AGIC**

- Unrhyw bryderon, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol, am sefydliad gofal iechyd lle mae deintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol yn ymarfer neu gael eu hyfforddi a allai godi amheuaeth ynglŷn â'i gofrestriad gydag AGIC.

- Unrhyw bryderon, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol, am sefydliad gofal iechyd a allai godi amheuaeth ynglŷn â chadernid ei systemau o arfarnu a llywodraethu clinigol.

- Pan fydd deintydd unigol wedi'i gofrestru gyda AGIC at y diben o ymgymryd â gwaith a reoleiddir, unrhyw bryderon, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol am yr unigolyn hwnnw, a allai godi amheuaeth ynglŷn â'i gofrestriad gydag AGIC.

- Bydd y CDC yn hysbysu AGIC am ganlyniadau gwrandawiadau'r Pwyllgor Practis a'r Pwyllgor Gorchymyn Interim a rhoi manylion pobl gofrestredig sydd wedi cael eu atgyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio.

**Rôl y CDC**

8. Mae'r CDC yn gorff statudol sydd yn annibynnol o'r GIG a'r Llywodraeth, ac sydd â'r cyfrifoldeb o gynnal cofrestrau deintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Amcan y CDC yw amddiffyn cleifion, hyrwyddo hyder mewn deintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol, a bod yn rheng flaen rheoleiddio gofal iechyd.

9. Y CDC

   - cynnal cofrestrau o weithwyr deintyddol proffesiynol cymwysedig;
   - gosod safonau ar gyfer arferion ac ymddygiad deintyddol;
   - sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol;
   - sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn diweddaru eu gwybodaeth;
   - cynorthwyo cleifion gyda chwynion am ddeintydd neu weithiwr deintyddol proffesiynol; a
   - gweithio i gryfhau amddiffyn cleifion.

10. Mae gan y CDC bwerau statudol i gymryd camau lle mae pryderon ynglŷn ag addasrwydd deintydd cofrestredig neu weithiwr deintyddol proffesiynol i ymarfer. Mae hyn yn cynnwys pobl gofrestredig mae iechyd yn effeithio ar eu haddasrwydd i ymarfer. Ceir manylion pellach ynglŷn â rôl y CDC yn Atodiad A.

**Rôl AGIC**

11. AGIC yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

12. Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac archwilio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da. Adolygir gwasanaethau iechyd mewn perthynas ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau a gyhoeddwyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle y mae'n ymddangos bod diffygion systemig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Yn ogystal, AGIC yw'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwylio statudol bydwragedd yng Nghymru.

13. Fel arfer, bydd unrhyw anghydfod rhwng AGIC a'r CDC yn cael ei ddatrys ar lefel weithredu. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir dwyn sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B at y mater, a all ei uwchgyfeirio wedyn trwy'r rhai cyfrifol, hyd at ac yn cynnwys Prif Weithredwyr y ddau sefydliad. Nhw fydd yn gyfrifol ar y cyd wedyn am sicrhau canlyniad a fydd yn foddhaol i'r naill sefydliad a'r llall.

**Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu**

14. Daeth y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn i rym yn wreiddiol pan gafodd ei lofnodi gan Brif Weithredwyr y ddau sefydliad. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei gyfyngu gan amser, a bydd yn parhau mewn grym oni bai bod angen newid yr egwyddorion a ddisgrifir neu eu bod yn peidio â bod yn berthnasol. Mae'r protocol cydweithio ar wahân yn nodi'r manylion ynglŷn â sut y bydd y CDC ac AGIC yn gweithio gyda'i gilydd i fanteisio i'r eithaf ar effeithiolrwydd eu hymatebion rheoleiddiol – ac fe fydd yn cael ei adolygu ar yr amledd a nodir yn y ddogfen hon. Rhaid adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gais y naill barti neu'r llall.

15. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi rheolwr Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel y ceir yn Atodiad B. Byddant yn cysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen i sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol ac i nodi unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg yn y berthynas weithio rhwng y ddau sefydliad.

16. Mae AGIC a'r CDC yn ymroddedig i ymchwilio ffyrdd i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol ac effeithlon er mwyn hyrwyddo ansawdd a diogelwch o fewn eu gwahanol gylchoedd gwaith rheoleiddiol.

17. Bydd cyd-weithgor yn goruchwylio datblygiad trefniadau gweithio sy'n cefnogi cyflenwad yr egwyddorion a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

**Llofnodion**

| | |
|---|---|
|  **Kate Chamberlain** |  **Evlynne Gilvarry** |

| | |
|---|---|
| **Prif Weithredwr**<br>**AGIC**<br><br>Dyddiad 24 Chwefror 2015 | **Prif Weithredwr a Chofrestrydd**<br>**Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC)**<br><br>Dyddiad 19 Rhagfyr 2014 |

**Atodiad A**

**Cyfrifoldebau a swyddogaethau**

18. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC) yn cydnabod cyfrifoldebau a swyddogaethau ei gilydd, a byddant yn ystyried y rhain wrth weithio gyda'i gilydd.

**Cyfrifoldebau a swyddogaethau'r CDC**

19. Cofrestriad – Cofrestri Deintyddion a Gweithwyr Deintyddol Proffesiynol

    Mae'n rhaid i bob deintydd sy'n ymarfer a phob Gweithiwr Deintyddol Proffesiynol gael ei gofrestru gyda'r CDC. Mae'n rhaid i bawb sy'n cael eu cofrestru gan y CDC ddangos bod ganddynt gymwysterau penodol neu basio asesiad a dangos eu bod yn bodloni gofynion iechyd a'r nodweddion personol er mwyn bod yn addas i ymarfer fel rhan o'r tîm deintyddol.

    Mae nifer o ffyrdd i wneud cais i fod ar y gofrestr. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos bod ganddo un o'r canlynol:

    - cymhwyster sy'n gydnabyddedig yn y DU;
    - cymhwyster sy'n gydnabyddedig yn Ewrop;
    - cymhwyster sy'n gydnabyddedig y tu allan i Ewrop;
    - asesiad o addasrwydd i gofrestru gan banel asesu sgiliau a gwybodaeth y CDC (yn achos personau sydd â chymwysterau o'r tu allan i Ewrop ac sydd â statws person wedi'i eithrio);
    - llwyddo i basio Arholiad Cofrestru o Dramor y CDC (ar gyfer deintyddion sydd â chymwysterau o dramor nad ydynt yn elwa o hawliau cymunedol a ellir eu gorfodi).

20. Safonau

    Mae'r CDC yn gosod safonau o ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n llywodraethu maes proffesiynol deintyddiaeth. Maent yn nodi'r egwyddorion, y safonau a'r canllawiau sy'n berthnasol i bob aelod o'r tîm deintyddol, yn ogystal â nodi'r hyn mae cleifion yn gallu ei ddisgwyl gan eu gweithwyr deintyddol proffesiynol. Ymhellach, mae'r CDC yn gorfodi'r safonau hyn gan fod methiant difrifol neu barhaus yn gallu arwain at y gweithiwr deintyddol proffesiynol yn cael ei ddileu o'r gofrestr.

21. Sicrhau Ansawdd

    Mae'r tîm sicrhau ansawdd yn gyfrifol am sicrhau bod addysg yn y DU ar gyfer deintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol yn bodloni safonau'r CDC ar gyfer addysg. Rydym yn gwneud hyn trwy ymweld ag ysgolion a sefydliadau er mwyn cyfweld â staff a myfyrwyr ac adolygu tystiolaeth a fydd yn dweud wrth ein panel arolygu sut mae'r addysg yn cael ei chyflwyno.

    Mae'r CDC hefyd yn gyfrifol am adolygu cyflwyniadau gan ddarparwyr rhaglenni ar gyfer rhaglenni i ddeintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol yr hoffent eu cyflwyno. Rydym yn gweithio yn agos gyda'n harolygwyr er mwyn asesu'r cyflwyniadau hyn ac wedyn yn cynorthwyo'r cofrestrydd wrth iddo benderfynu a yw'r rhaglen yn debygol o fodloni safonau'r CDC. Os oes rhaglen sy'n debygol o fodloni safonau'r CDC, wedyn bydd y cofrestrydd yn rhoi caniatâd i'r darparwyr ddechrau cyflenwi'r rhaglen i fyfyrwyr. Rhoddir cymeradwyaeth, neu fel arall, yn sgil arolygiad o'r garfan gyntaf o raddedigion.

22. Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae dyletswydd ar weithwyr deintyddol proffesiynol i ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth. Y cam cyntaf yn unig yn eu haddysg a'u datblygiad – a ddylai barhau am oes eu gyrfa broffesiynol – yw cymhwyster cychwynnol. Rydym yn gofyn i bob person cofrestredig ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn cynnal ei gofrestriad. Mae hyn oherwydd inni gredu bod datblygiad proffesiynol parhaus yn gwneud cyfraniad at gefnogi pobl gofrestredig i gynnal ein safonau ac i amddiffyn cleifion.

Bydd yn rhaid i bawb sy'n bwriadu adfer ei gofrestriad gyda'r CDC yn y dyfodol barhau i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus, gan y bydd yn rhaid iddynt ddangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus wedi'i gyflawni. Diffiniad datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer deintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol, yn ôl y gyfraith, yw gweithgarwch sy'n cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol ac sy'n berthnasol i'w maes o ymarfer, neu i'w maes arfaethedig o ymarfer.

23. Arferion anghyfreithlon

Mae Deddf Deintyddion 1984 yn rhoi pŵer i'r CDC i erlyn unigolion a chwmnïau lle mae gennym ddigon o dystiolaeth bod trosedd wedi digwydd. Er mwyn dwyn erlyniad troseddol mae'n rhaid inni ddod o hyd i dystiolaeth bod trosedd wedi digwydd. Er mwyn codi pryderon ynglŷn ag arferion anghyfreithlon neu anghofrestredig, gofynnwn ichi lenwi'r ffurflen a geir ar wefan y CDC – www.gdc-uk.org.

Pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth bod trosedd bosibl yn digwydd, rydym yn gallu gofyn i'n harolygwyr a chyfreithwyr ymchwilio a chasglu tystiolaeth. Unwaith mae'r dystiolaeth wedi'i chasglu, mae'n cael ei phrofi mewn dau gam, fel y nodir yn y cod ar gyfer erlynyddion y Goron, er mwyn asesu a yw dwyn erlyniad yn bosibl neu beidio.
Os yw'r dystiolaeth yn pasio'r ddau gam hyn, gall ein cyfreithwyr ddwyn yr achos i lys yr ynadon. Gellir gosod dirwy os yw'r erlyniad yn llwyddo. Ceir manylion o erlyniadau blaenorol a ddygwyd gan y CDC yn nhudalennau newyddion gwefan y CDC – www.gdc-uk.org.

24. Addasrwydd i Ymarfer

Mae'n rhaid i ddeintyddion a gweithwyr deintyddol proffesiynol fodloni gofynion penodol adeg y cofrestriad cychwynnol, ac wedyn parhau i wneud felly trwy gydol eu gyrfa er mwyn ymarfer. Os yw amheuaeth ynglŷn â'u haddasrwydd i ymarfer, o ganlyniad i gŵyn, euogfarn neu rybudd, gallent fod yn destun prosesau addasrwydd i ymarfer y CDC.

Mae materion sy'n awgrymu amhariad posibl ar yr addasrwydd i ymarfer yn cael eu hatgyfeirio at banel Pwyllgor Ymchwiliadau. Mae'r panel Pwyllgor Ymchwiliadau yn cynnwys pobl gofrestredig a phobl leyg, wedi'u penodi gan y CDC, trwy broses sydd ar wahân i reolaeth weithredol y CDC. Efallai y bydd Pwyllgor Ymchwiliadau yn penderfynu nad oes angen camau pellach neu y bydd cyngor neu lythyr rhybuddio'n ddigon.

Mewn achosion sydd o bosibl yn fwy difrifol, bydd y panel Pwyllgor Ymchwiliadau yn atgyfeirio'r mater i un o dri phwyllgor ymarfer: y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol; neu'r Pwyllgor Iechyd ar gyfer gwrandawiad ffurfiol. Bydd pobl gofrestredig sydd wedi'u hatgyfeirio at y Pwyllgor Ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o aelodau lleyg ac aelodau cofrestredig mewn gwrandawiad ffurfiol.

Mae gan y CDC a'r person cofrestredig yr hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol. Yn ystod pob cam o'n gweithdrefnau, gall y Pwyllgor Gorchmynion Interim atal cofrestriad person cofrestredig, neu osod rhwystrau ar ei ymarfer.

Lle mae'r CDC yn cael nad yw person cofrestredig yn addas i ymarfer, mae ganddo bwerau i:

- dynnu enw'r person cofrestredig hwnnw oddi ar y gofrestr;

- atal y person cofrestredig rhag bod ar y gofrestr;
- gosod amodau ar ymarfer y person cofrestredig.

25. Y Gwasanaethau Cwynion Deintyddol

    Mae'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol yn dîm o gynghorwyr wedi'u hyfforddi, sy'n ceisio helpu cleifion deintyddol preifat a gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddatrys cwynion am ofal deintyddol preifat. Mae'n darparu gwasanaeth diduedd am ddim sy'n cael ei ariannu gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

    Ei nod yw datrys cwynion am ofal deintyddol preifat mewn ffordd deg, effeithlon a chyflym. Mae'n gweithio gyda chleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol er mwyn cyrraedd ateb mae'r ddwy blaid yn fodlon arno, boed hynny'n driniaeth unioni (triniaeth i gywiro gwaith deintyddol blaenorol), ad-daliad, neu atgyfeiriad at weithiwr proffesiynol arall. Ni all ddyfarnu neu argymell iawndal.

**Cyfrifoldebau a swyddogaethau AGIC:**

26. AGIC yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

27. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, ac er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi eu sefydlu ar gyfer diogelu ei hannibyniaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

    - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
    - Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig
    - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Iechyd Meddwl 2007
    - Goruchwyliaeth Statudol Bydwragedd fel y nodir yn Erthyglau 42 a 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001
    - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Rheoliadau Diwygio 2006.

28. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

    - Gwneud cyfraniad sylweddol at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
    - Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
    - Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
    - Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

29. Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac archwilio sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill fod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da. Adolygir gwasanaethau iechyd mewn perthynas ag amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau a gyhoeddwyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen i gyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle y mae'n ymddangos bod diffygion systemig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau ac y dysgir gwersi'n gyflym. Yn ogystal, AGIC yw'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwylio statudol bydwragedd yng Nghymru.

**Atodiad B**

1. Manylion cyswllt

| AGIC | Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Ymchwilio<br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>Ffôn: 0300 062 8163<br>www.agic.org.uk/ | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer<br>37 Wimpole Street<br>Llundain<br>W1G 8DQ<br>fitnesstopractise@gdc-uk.org<br><br>Ffôn: 020 7887 3880<br>www.gdc-uk.org |

2. Mae'r cysylltiadau a enwir rhwng AGIC a'r CDC fel a ganlyn:

| **Prif Weithredwyr (dylid dilyn polisïau uwchgyfeirio mewnol cyn cyfeirio at Brif Weithredwyr)** | |
|---|---|
| Kate Chamberlain<br>Prif Weithredwr<br>E-bost: Kathryn.Chamberlain@<br>Wales.GSI.Gov.UK | Evlynne Gilvarry<br>Prif Weithredwr a Chofrestrydd<br>E-bost: egilvarry@gdc-uk.org |
| **Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
| Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol | Pennaeth Polisi Corfforaethol |

Mae’r Protocol Cydweithio ar gyfer AGIC a'r CDC yn gosod y manylion gweithredol ar gyfer pob maes o gydweithrediad rhwng y ddau sefydliad, a'r camau uwchgyfeirio y cytunwyd arnynt lle bo angen.